**Julie James AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni**
**Counsel General and Minister for Delivery**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: CG/PO/359/2024

Mike Hedges AS, Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1SN

29 Tachwedd 2024

Annwyl Mike

**Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru)**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 15 Tachwedd ynglŷn â'r Bil. Mae fy ymateb yn dilyn.

**<u>Y rhestr wedi'i didoli ar gyfer deddfwriaeth</u>**

Trafodwyd y rhestr wedi'i didoli yn fyr yn ystod fy nhystiolaeth i'r Pwyllgor.

Caiff gwelliannau i Filiau eu rhestru yn y drefn y cânt eu cyflwyno, ond pennir yr ystyriaeth ohonynt, fel arfer, yn ôl y drefn y maent yn effeithio ar y Bil. Unwaith y mae'r holl welliannau wedi eu cyflwyno cânt eu dwyn ynghyd a'u trefnu (mewn geiriau eraill 'eu didoli') yn y drefn y byddant yn cael eu hystyried ac y pleidleisir arnynt. Yna caiff "rhestr wedi'i didoli" sy'n dangos y drefn hon ei llunio.

Rwy'n cytuno â'r farn a fynegwyd gan Aelodau'r Pwyllgor y gall y rhestr wedi'i didoli a phleidleisio ar welliannau fel y maent yn effeithio ar y Bil yn hytrach nag yn y drefn y trafodir hwy, fod yn ddryslyd i'r rheini nad ydynt yn rhan uniongyrchol o'r trafodaethau. Mae angen inni ystyrid sut i annog cyfranogiad llawnach yn y broses ddeddfwriaethol ac mae'r ffordd yr ydym yn gwneud gwelliannau i Filiau yn rhan bwysig o hynny.

Fel y dywedodd fy swyddogion wrthych mewn tystiolaeth, mae'r rhestr wedi'i didoli a'n system bresennol o ystyried gwelliannau yn seiliedig ar fyd print ar bapur. Dyma fyd y dylem fod wedi symud ymlaen ohono mewn amgylchiadau eraill. Mae angen inni ystyried sut y gallai technoleg sydd eisoes yn bodoli ein galluogi i weld a phleidleisio ar welliannau mewn ffordd fwy hygyrch a dealladwy. Rwy'n awyddus i'r Senedd a'r Llywodraeth ystyried y cyfleoedd a allai fod ar gael iddynt i wella'r broses hon.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Cwnsler.Cyffredinol@llyw.cymru
correspondence.Counsel.General@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## Pwerau benthyca Awdurdod Datblygu Cymru

Sefydlwyd Awdurdod Datblygu Cymru (ADC) o dan Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 ("Deddf 1975"). Diddymwyd ADC yn 2006 a throsglwyddwyd ei swyddogaethau yn gyntaf i'r Cynulliad Cenedlaethol fel y'i cyfansoddwyd ym 1999 ac yna yn ei dro (yn rhinwedd Deddf Llywodraeth Cymru 2006) i Weinidogion Cymru.

Er i Orchymyn Awdurdod Datblygu Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu) 2005 (O.S. 2005/3226) ddiddymu ADC a throsglwyddo ei swyddogaethau, ei eiddo, ei hawliau a'i rwymedigaethau, cadwyd Deddf 1975, er bod hynny ar ffurf ddiwygiedig. Trosglwyddwyd pŵer benthyca a oedd gan ADC o dan Atodlen 3 i Ddeddf 1975 i Weinidogion Cymru hefyd. Roedd hwn wedi dod yn bŵer damcaniaethol yn unig erbyn yr amser iddo gael ei drosglwyddo, fodd bynnag. Roedd hyn oherwydd pe bai Gweinidogion Cymru (neu'n wir yr ADC blaenorol) wedi arfer y pŵer, o dan reolau'r Trysorlys (y DU), byddai'r arian wedi ei drin fel derbyniad gan basio'n uniongyrchol i Gronfa Gyfunol Cymru, heb gynhyrchu unrhyw adnoddau net ychwanegol i Gymru. Mewn geiriau eraill, byddai swm y benthyciad wedi ei ddidynnu o'r arian a neilltuwyd i Gronfa Gyfunol Cymru gan y Trysorlys – gan olygu ei fod, yn ymarferol, yn bŵer na ellid ei ddefnyddio.

Yn y pen draw diddymwyd y pŵer yn Neddf 1975 gan Ddeddf Cymru 2014, a oedd yn galluogi Gweinidogion Cymru i fenthyca mewn amgylchiadau cyfyngedig (heb y cyfyngiad hwnnw).

## Ymateb i'r cwestiynau yn yr Atodiad i lythyr y Pwyllgor

**Cwestiwn 1: O ran eich cyfrifoldeb am oruchwylio'r amserlen ar gyfer y Rhaglen Ddeddfwriaethol, a chyflawni'r Rhaglen honno, a wnewch chi amlinellu pam y gwnaed y penderfyniad i roi mwy o flaenoriaeth i gyflwyno'r Bil hwn nag i'r posibilrwydd o gyflwyno Bil gan y Senedd a fyddai'n cynnwys darpariaethau sy'n ymddangos ar hyn o bryd yn neddfwriaeth Llywodraeth y DU, megis yn y Bil Hawliau Rhentwyr?**

Yn ystod fy nhystiolaeth ar 4 Tachwedd eglurais fod y Bil hwn wedi ei ddatblygu gan ein Cwnsleriaid Deddfwriaethol, sydd wedi gweithio arno fel yr oedd amser yn caniatáu. Ni roddwyd blaenoriaeth uwch iddo o'i gymharu â deddfwriaeth arall, ond mae'n barod yn awr ac roedd cyfle i'w gyflwyno.

Nid wyf yn credu bod y Bil hwn heddiw yn bwysicach nag un arall. Yn hytrach, rhan ydyw o'r gwaith rydym wedi bod yn ei wneud ers tro: gweithio'n dawel ac yn gyson i wella hygyrchedd cyfraith Cymru.

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai eisoes wedi rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor ar y Bil Hawliau Rhentwyr. Rwy'n nodi ei fod yn diwygio deddfwriaeth Gymreig ym maes tai.

**Cwestiwn 2: Nid yw'r Memorandwm Esboniadol (y Memorandwm) yn cyfeirio at effaith y Bil ar hawliau dynol. A wnewch chi nodi:**

- **a yw Llywodraeth Cymru wedi cynnal asesiad o oblygiadau darpariaethau'r Bil o ran hawliau dynol; ac**
- **yn benodol, a yw Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd adran 2 o'r Bil yn cael unrhyw effaith ar hawliau dynol?**

Mae'r Llywodraeth wedi cynnal asesiad o oblygiadau'r Bil hwn o ran hawliau dynol ac rwy'n fodlon fod ei ddarpariaethau yn gydnaws â hawliau'r Confensiwn. Yn wir, rwy'n credu bod y Bil yn cael effaith gadarnhaol ar hawliau dynol ac ar reol y gyfraith, am ei fod yn rhoi'r

trefniadau ar gyfer craffu ar ddeddfwriaeth a chyhoeddi deddfwriaeth ar sail gyfreithiol fwy eglur ac yn cael gwared ar annibendod diangen o gyfraith Cymru.

Nid yw'r Llywodraeth o'r farn fod adran 2 yn codi unrhyw faterion o ran cydnawsedd â hawliau'r Confensiwn. Mewn unrhyw achos pan fo gorchymyn traffig ffyrdd yn ysgogi hawliau'r Confensiwn, bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymddwyn mewn modd sy'n gydnaws â'r hawliau hynny wrth wneud a gorfodi'r gorchymyn. Ceir gweithdrefnau statudol ar gyfer gwneud a rhoi cyhoeddusrwydd i orchmynion traffig ffyrdd hefyd, er enghraifft, yn OS 1990/1656 ac OS 1992/1251 a wnaed o dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984; a bydd yr adran 37Z newydd o Ddeddf 2019 (a fewnosodir gan adran 3 o'r Bil) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r holl is-ddeddfwriaeth Gymreig a wneir ganddynt nad yw'n ofynnol iddi gael eu gwneud ar ffurf offeryn statudol Cymreig.

**Cwestiwn 3: Mae'r Memorandwm, ym mharagraff 82, yn dweud "nad oes bwriad uniongyrchol" i ddefnyddio'r pwerau yn adran newydd 37F(2)(c) o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (Deddf 2019) a pharagraff 6(3)(c) o Atodlen newydd 1A iddi, fel y'u mewnosodir gan adran 1 o'r Bil. Mae'r Memorandwm yn mynd ymlaen i nodi, fodd bynnag, ei bod yn "beth call sicrhau bod mecanwaith priodol ar gael i alluogi deddfiadau penodol i gael eu rhestru pe bai'r Senedd neu Weinidogion Cymru yn ystyried nad oes angen gosod offerynnau penodol gerbron y Senedd." A wnewch chi ddarparu:**

- **cyfiawnhad pellach dros gynnwys y pwerau hyn, pan fo'n ymddangos nad oes bwriad i'w defnyddio; ac**
- **esboniad o pam y penderfynwyd rhoi'r pwerau hyn i Weinidogion Cymru, yn hytrach na gadael i'r Senedd benderfynu ym mhob deddfiad?**

Fel y dywedais wrth y Pwyllgor yn fy nhystiolaeth, y bwriad gyda'r Rhannau 2A a 2B newydd yw codeiddio a moderneiddio'r trefniadau deddfwriaethol presennol i adlewyrchu realiti datganoli a realiti arferion presennol. Mae adran 37F yn adlewyrchu trefniadau ac arferion presennol, ac yn gwella'r sefyllfa sydd ohoni hefyd.

Ar hyn o bryd os nad yw deddfiad yn darparu bod rhaid gosod offeryn statudol gerbron y Senedd (naill ai fel rhan o'r weithdrefn ar gyfer ei wneud neu fel arall), yna ni chaiff yr offeryn ei osod. Mae'r adran 37F newydd yn darparu sefyllfa 'ddiofyn' sy'n golygu bod rhaid i offerynnau statudol nad ydynt yn ddarostyngedig i weithdrefn o dan adran 37C, 37D neu 37F gael eu gosod. Bydd hyn yn effeithio'n bennaf ar orchmynion cychwyn a rhai gorchmynion penodol eraill.

Mae rhai eithriadau i'r gofyniad diofyn fodd bynnag: offerynnau "lleol" nad yw'n ofynnol eu gosod ar hyn o bryd, a'r rheini sy'n ddarostyngedig i weithdrefn arbennig y Senedd (a osodir o dan y weithdrefn honno felly). Mae swyddogion wedi cynnal ymarfer i nodi unrhyw ddeddfiadau eraill nad oes gofyniad ynddynt ar hyn o bryd i osod offeryn gerbron y Senedd, y dylid cadw eu heffaith. Hyd yn hyn nid yw'r gwaith hwnnw wedi nodi unrhyw ddeddfiadau perthnasol, ond ni allwn fod yn sicr na fydd deddfiad o'r fath yn dod i'r golwg rywbryd yn y dyfodol. Felly mae'r pwerau yn adran 37F(2)(c) ac ym mharagraff 6(3)(c) o Atodlen 1A yn darparu mecanwaith ar gyfer ychwanegu deddfiadau o'r fath i'r rhestr o esemptiadau o'r gofyniad diofyn.

Hyderaf y bydd y Pwyllgor yn deall, felly, nad wyf yn cytuno â'ch cyflead o fwriadau'r Llywodraeth yn eich gohebiaeth. Fel y nodir yn y Memorandwm Esboniadol nid oes unrhyw "fwriad uniongyrchol", nad yw yr un peth a dim bwriad o gwbl.

Mae'r Senedd yn dal yn rhydd i benderfynu nad oes angen arfer pwerau mewn Bil a gyflwynir yn y dyfodol i wneud is-ddeddfwriaeth fel offeryn statudol Cymreig yn

ddarostyngedig i weithdrefn. Ac yn yr achosion hynny, mae'r Senedd hefyd yn rhydd i nodi na fydd adran 37F yn gymwys. Nid yw'r Bil yn cyfyngu ar bwerau'r Senedd yn hyn o beth.

**Cwestiwn 4: A wnewch chi roi rhagor o fanylion ynghylch sut y bydd adran newydd 37Z(2) o Ddeddf 2019, sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio a chyhoeddi penderfyniad ynghylch rhifo a dosbarthu offerynnau statudol Cymreig, yn gweithredu'n ymarferol?**

Wrth ddatblygu'r Rhan 2B newydd ceisiwyd sicrhau ein bod yn gwneud darpariaeth gyfatebol pan fo agweddau penodol ar gyhoeddi yn effeithio ar Ddeddfau ac offerynnau statudol Cymreig fel ei gilydd. Er enghraifft, mae adran 37J yn ymdrin â rhifo Deddfau ac mae adran 37P yn gwneud trefniadau cyfatebol ar gyfer offerynnau. Yn yr un modd, rydym wedi ceisio sicrhau bod trefniadau cyfatebol yn bodoli ar gyfer cyhoeddi a chadw.

Gan na chaiff is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru ar ffurf heblaw offeryn statudol Cymreig ei chyhoeddi gan neu ar ran Argraffydd y Brenin, nid ydym wedi cynnwys y trefniadau manwl ar gyfer cyhoeddi'r ddeddfwriaeth hon yn y Bil/Rhan 2B. Yn hytrach, fel y nodwyd gan eich Pwyllgor, mae'r adran 37Z(2) newydd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio a chyhoeddi penderfyniad ar faterion o'r fath.

Rwy'n disgwyl i'r penderfyniad nodi'r gofynion manwl y bydd swyddogion yn eu dilyn wrth drefnu i gyhoeddi. Felly bydd angen iddo amlinellu sut y bwriedir rhifo – er enghraifft, bod cyfres newydd i gychwyn bob blwyddyn galendr, lleoliad y rhif ar wahanol fathau o is-ddeddfwriaeth, etc. Bydd hefyd yn nodi sut y mae is-ddeddfwriaeth o'r fath i gael ei dosbarthu. Er enghaifft, yn ôl pwnc ac os felly, a yw pennawd pwnc i'w gofnodi ar yr is-ddeddfwriaeth ac a yw hyn yn ffurfio rhan o gofrestr o is-ddeddfwriaeth ai peidio.

Y bwriad cyffredinol yw bod pob is-ddeddfwriaeth yn cael ei chyhoeddi wrth ei gwneud. Pan fo deddfwriaeth wedi ei disodli (er enghraifft, os yw Cod Ymarfer wedi ei ddiweddaru), y drefn ar hyn o bryd yw, os yw fersiwn flaenorol yn cael ei disodli ac nad yw ar wefan y Llywodraeth, dangosir cyfeiriad ati a bydd ar gael os gofynnir amdani. I gefnogi'r uchelgais hwn o ran cyhoeddi mae angen cadw cofnod llawn, a sicrhau bod modd adnabod darnau unigol o ddeddfwriath (drwy rifo a dosbarthu).

Bydd y penderfyniad yn bwynt cyfeirio eglur er mwyn cryfhau ein dull o gyhoeddi is-ddeddfwriaeth.

**Cwestiwn 5: A wnewch chi amlinellu pam y mae angen cynnwys y ddarpariaeth ym mharagraff 7 o Atodlen 1A, sy'n rhoi pwerau dirprwyedig i Weinidogion Cymru i ddiwygio unrhyw ddeddfiad i adlewyrchu effaith yr Atodlen, neu i wneud darpariaeth sy'n ganlyniadol arni?**

Gweler Tabl 3 o'r Memorandwm Esboniadol a pharagraff 59 o'r Nodiadau Esboniadol.

**Cwestiwn 6: A wnewch chi nodi a oes unrhyw ddarpariaethau yn y Bil a fyddai'n galluogi Gweinidogion Cymru i newid y weithdrefn sydd ynghlwm wrth bŵer presennol sydd wedi'i ddirprwyo i Weinidogion Cymru?**

Mae'r unig amgylchiadau yn y Bil y caiff Gweinidogion Cymru newid y weithdrefn sydd ynglwm â phŵer sy'n bodoli eisoes, wedi eu nodi yn yr adran 37G newydd. Ailddatgan yr adran 40 bresennol o Ddeddf 2019 y mae hyn, fodd bynnag (a chaiff adran 40 ei hepgor yn rhinwedd paragraff 14 o Atodlen 3 i'r Bil).

Nid oes pŵer cyffredinol i newid y weithdrefn sydd ynghlwm wrth bwerau presennol.

**Cwestiwn 7: Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, cyfeiriodd eich swyddog at y ffaith bod y Bil yn creu rhwymedigaeth newydd ar Argraffydd Deddfau Seneddol y Brenin i gyhoeddi deddfwriaeth Gymreig ar ffurf gyfredol. Nododd eich swyddog hefyd y bydd y Bil yn llenwi bylchau penodol eraill mewn perthynas ag Argraffydd y Brenin. A wnewch chi amlinellu'r bylchau hyn a sut y mae'r Bil yn ceisio ymdrin â hwy?**

O ran Deddfau Senedd Cymru, mae'r Bil yn darparu:

- rhwymedigaeth glir ar Argraffydd y Brenin Cymru i gyhoeddi'r copi ardystiedig o fersiwn brint swyddogol y Ddeddf (gweler adran 37M). Awgrym yn unig yw'r rwymedigaeth i wneud hynny yn adran 115 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
- gofyniad i gyhoeddi dogfennau cysylltiedig (adran 37M) a phŵer i gyhoeddi'r rhain (adran 37Y). Ni ddarperir ar gyfer hyn mewn deddfwriaeth ar hyn o bryd, ond yn ymarferol mae Argraffydd y Brenin yn cyhoeddi'r Nodiadau Esboniadol i Ddeddfau Senedd Cymru. Ar gyfer Deddfau cydgrynhoi, mae Argraffydd y Brenin hefyd yn cyhoeddi'r tablau tarddiadau a chyrchfannau a chopïau o nodiadau'r drafftwyr. Yn y dyfodol gallai hyn hefyd gynnwys asesiadau effaith neu ddeunyddiau eraill.
- gofyniad i gyhoeddi tabl o effaith y Ddeddf ar ddeddfiadau eraill (os yw hynny'n gymwys) (adran 37U).
- mae'r gofyniad i gyhoeddi yn golygu cyhoeddi ar-lein, rhywbeth na ddarperir yn benodol ar ei gyfer ar hyn o bryd.

O ran offerynnau statudol Cymreig,

- mae'r adrannau 37N(2)(c), 37P(2)(b) a 37Q(2)(c) newydd yn gwneud darpariaeth ynghylch y penawdau pwnc a geir ar offerynnau statudol.
- mae'r adran 37P(3) newydd yn egluro y caniateir defnyddio is-rifau mewn perthynas ag offerynnau (gweler hefyd baragraff 93 o'r Nodiadau Esboniadol).
- mae'r adrannau 37N(2)(b) a 37Q(2)(d) ac (e) newydd yn adlewyrchu'n llawn y ffordd y caiff gwybodaeth am gychwyn ei darparu a'i chynnwys mewn offerynnau (gweler hefyd baragraff 95 o'r Nodiadau Esboniadol).
- ceir gofyniad newydd i gyhoeddi dogfennau cysylltiedig (adran 37Q(3)) a phŵer i'w cyhoeddi (adran 37Y).
- bwriad yr adran 37R newydd yw adlewyrchu sut y caiff offeryn sy'n ddarostyngedig i'r hyn y cyfeirir ato heddiw fel y weithdrefn 'gwneud cadarnhaol' ei ailgyhoeddi. Wrth wneud darpariaeth ar gyfer hyn rydym wedi cynnwys rhwymedigaeth ar Argraffydd y Brenin i gynnwys datganiad bod offeryn yn peidio â chael effaith os nad yw'r Senedd wedi ei gadarnhau o dan adran 37D. Yr arfer ar hyn o bryd yw na chaiff offerynnau o'r fath eu hailgyhoeddi gyda'r wybodaeth honno o dan yr amgylchiadau hynny, a allai beri i'r darllenydd beidio â sylweddoli bod yr is-ddeddfwriaeth wedi peidio â chael effaith.
- ar hyn o bryd mae gofyniad ar yr Ysgrifennydd Gwladol i drefnu bod Argraffydd y Brenin yn cyhoeddi tablau o effeithiau offerynnau statudol ar ddeddfiadau eraill mewn rhywbeth a elwir y "rhifyn blynyddol". Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i dablau o effeithiau gael eu cyhoeddi, ond ar-lein yn awr, a rhaid eu cyhoeddi yn llawer mwy prydlon na'r hyn a geir mewn darpariaeth ddeddfwriaethol ar hyn o bryd.
- fel gyda Deddfau, mae'r gofynion i gyhoeddi yn golygu cyhoeddi ar-lein, rhywbeth na ddarperir yn benodol ar ei gyfer ar hyn o bryd.

Nid ymdrinnir â'r materion hyn, neu nid ymdrinnir â hwy'n helaeth, yn Neddf Offerynnau Statudol 1946 nac yn y Rheoliadau 1947 cysylltiedig. Mae dyletswyddau a phwerau Argraffydd y Brenin i argraffu a gwerthu Deddfau, offerynnau, offerynnau drafft a dogfennau penodol (adran 37Y) yn ystyried y ddarpariaeth ddeddfwriaethol sydd ohoni, er na chaiff hyn ei fynegi mor eglur, ac mae hefyd yn adlewyrchu'r trefniadau sy'n cael eu dilyn ar hyn o bryd.

Wrth lunio'r adran 37Z2 newydd ystyriwyd Deddf Offerynnau Statudol (Cynhyrchu a Gwerthu) 1996, ond unwaith eto fe'i cynlluniwyd i sicrhau bod darpariaeth benodol ynghylch dirprwyo swyddogaethau.

Mae'r gofyniad ar Argraffydd y Brenin i gynnal a chyhoeddi cofnod o ddeddfwriaeth Gymreig (adran 37W) yn newydd.

Mae'n werth nodi dau fater ychwanegol er mwyn rhoi'r darlun cyflawn:

- mae Deddf 1946 a'r Rheoliadau 1947 cysylltiedig yn gwneud darpariaeth ynghylch offerynnau statudol a wneir o dan "unrhyw Ddeddf" ("any Act") ac yn rhinwedd adran 11A o Ddeddf 1946 mae hyn yn cynnwys Deddfau a Mesurau Senedd Cymru. Ond nid yw'r diffiniad o "awdurdod cyfrifol" ("responsible authority") yn rheoliad 1 o Reoliadau 1947 yn cynnwys personau heblaw'r Gweinidog sy'n gwneud offeryn neu'r Gweinidog sy'n gyfrifol am lunio Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor. Felly o ran Cymru, mae hyn yn cynnwys Gweinidogion Cymru ond nid yw'n cynnwys yn benodol unrhyw awdurdod datganoledig Cymreig sy'n gwneud offeryn o'r fath. Gall Gweinidogion Cymru neu awdurdod datganoledig Cymreig arall wneud offeryn statudol, ac felly mae'r diffiniad o offeryn statudol Cymreig yn awr yn darparu'n benodol ar gyfer hyn (gweler adran 37A). Yna mae'r Bil yn mynd ymlaen i sicrhau bod y gofynion yn Rhan 2B yn adlewyrchu cyfrifoldebau perthnasol yr holl bartion yn llawn. Bydd hyn yn hefyd yn osgoi'r angen i Filiau a wneir yn y dyfodol gymhwyso Deddf 1946 yn benodol i awdurdodau datganoledig Cymreig os yw'r Senedd yn rhoi pwerau iddynt wneud is-ddeddfwriaeth drwy offeryn statudol (fel sy'n ofynnol ar hyn o bryd).

- mae'r adran 37O newydd yn llenwi bwlch arall yn y trefniadau deddfwriaethol presennol ac yn adlewyrchu'r arferion gweithdrefnol sy'n bodoli rhwng Llywodraeth Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

**Cwestiwn 8: Mae'r Memorandwm, ym mharagraffau 70 i 72, yn amlinellu gwaith ymgynghori sy'n berthnasol i ddiddymu Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011 yn y Bil. Yn benodol, mae'n cyfeirio at ymgynghoriad ar gynnwys systemau chwistrellu mewn cartrefi gofal i blant; fodd bynnag – fel y dywed y Memorandwm hefyd – bwriedid i'r Mesur fod yn gymwys "ym mhob preswylfa newydd a phob preswylfa sydd wedi ei throsi". A wnewch chi ddarparu:**

- **amlinelliad o unrhyw waith ymgynghori pellach sydd wedi'i wneud mewn perthynas â'r bwriad hwn i ddiddymu'r Mesur;**

Caiff y gofynion ar gyfer gosod systemau atal tân eu nodi yn y Rheoliadau Adeiladu ac yn bwysicach na hynny, eu gorfodi drwyddynt. Nid oedd hyn yn wir pan gyflwynwyd y Mesur. Yr ymgynghoriad diweddaraf ynghylch systemau chwistrellu mewn cartrefi gofal oedd y cam olaf o ran sicrhau bod y Rheoliadau Adeiladu yn adlewyrchu pob agwedd y gallai'r Mesur fod wedi ei gynnwys.

O ganlyniad, nid oedd y Llywodraeth o'r farn fod angen cynnal ymgynghoriad ar wahân i sefydlu a oedd angen cadw unrhyw agwedd o'r Mesur, ac mae wedi ei gynnwys yn y Bil yn awr ar gyfer ei ddiddymu.

- **eich asesiad o effeithiau symud gofynion ynghylch systemau chwistrellu o ddeddfwriaeth sylfaenol i is-ddeddfwriaeth;**

Mae'r gofynion ar gyfer systemau atal tân eisoes yn y Rheoliadau Adeiladu, ac nid yw'r Bil hwn yn newid hynny. Pan gynhwysodd y Llywodraeth y gofynion yn y Rheoliadau hynny yn 2013, ystyriwyd bod hyn yn gam pwysig ymlaen. Mae'r Rheoliadau Adeiladu yn helpu i sicrhau bod adeiladau newydd, trosiadau, gwaith adnewyddu ac estyniadau yn ddiogel, yn

iach, ac yn perfformio'n dda. Maent hefyd yn darparu trefniadau ar gyfer cydymffurfio a gorfodi. Fe'u hategir gan gyfres o Ddogfennau Cymeradwy. O ganlyniad mae'r rheini sy'n ymwneud ag adeiladu ac adnewyddu adeiladau yn edrych mewn un lle i weld y gofynion cymwys. Nid oes angen iddynt chwilio am ddarn arall o ddeddfwriaeth i ymdrin ag un agwedd benodol. Dyma'r egwyddor rydym yn ei dilyn ar gyfer cydgrynhoi yn fwy cyffredinol.

O ystyried bod y Rheoliadau Adeiladu eisoes yn ymdrin â'r gofynion o ran systemau chwistrellu, ac mai'r Rheoliadau sy'n weithredol yn ymaferol, nid wyf o'r farn fod unrhyw effaith andwyol o ddiddymu'r Mesur yn awr. Mae'r diddymiad yn dileu deddfwriaeth sylfaenol nad yw o ddefnydd na budd ymarferol mwyach.

- **cadarnhad ynghylch a yw'r Rheoliadau Adeiladu presennol yn darparu'r un lefel o ofynion o ran systemau chwistrellu ag a oedd wedi'u cynnwys yn y Mesur.**

O ystyried y graddau cyfyngedig y cychwynnwyd y Mesur, a'r diwygiad diweddar mewn perthynas â chartrefi gofal plant, mae'r Rheoliadau Adeiladu bellach yn ymdrin â'r un materion ag yr oedd y Mesur, i bob pwrpas. Felly ni fydd unrhyw fylchau yn cael eu creu yn ymarferol yn sgil diddymu'r Mesur.

**Cwestiwn 9: Mae'r Memorandwm, ym mharagraffau 60 a 61, yn dweud nad yw'r Bil bellach yn cynnwys diddymu adrannau 53 i 56 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, wedi iddynt gael eu cychwyn yn Lloegr, er mai polisi Llywodraeth Cymru o hyd yw na chaiff y darpariaethau hyn eu cychwyn. A wnewch chi ddarparu:**

- **rhagor o wybodaeth ynghylch penderfyniad Llywodraeth Cymru i beidio â chynnwys y darpariaethau hyn yn y Bil;**
- **esboniad ynghylch a allai fod wedi ychwanegu "in England" at ddiwedd y darpariaethau perthnasol, yn hytrach na diddymu'r adrannau. Ymddengys y byddai hynny'n cyd-fynd â'r diddymiadau eraill yn y Bil;**

Nodwyd safbwynt y Llywodraeth yn adrannau 53 i 56 o Ddeddf 2000 ac rydym yn dal o'r farn na ddylid cychwyn yr adrannau hyn o ran Cymru.

Y prawf a ddefnyddiwyd gennym ar gyfer cynnwys diddymiad yn y Bil, fodd bynnag, yw fod y mater yn addas i'w gynnwys gan nad yw'r darpariaethau o ddefnydd na budd ymarferol mwyach. Gallai rhywbeth berthyn i'r categori hwn os yw:

(a) yn ddarfodedig, wedi ei ddisbyddu neu wedi ei ddisodli;

(b) yn annhebygol o gael ei gychwyn, gan nad yw wedi ei gychwyn am gyfnod a bod y cyd-destun gwreiddiol wedi newid; neu

(c) fel arall yn ddiangen (er enghraifft, pan fo'r bwriad yn cael ei gyflawni drwy ddull arall).

Felly er nad yw adrannau 53 i 56 o ddarpariaethau Deddf 2000 wedi eu cychwyn, mae'r cyfle i gychwyn a chyfwyno dyddiad terfyn yn parhau. Mae dewis polisi ar gael felly o ran eu cychwyn ai peidio. Fe wnaethom ymgynghori ar y Bil drafft ar sail hynny.

Mae penderfyniad Llywodraeth y DU yn golygu ei bod yn ymddangos bod rhywfaint o ddefnydd ymarferol i'r darpariaethau o ran Lloegr. At hynny, ar hyn o bryd o leiaf, ni ellid eu diddymu drwy Fil Diddymu sy'n gweithredu mewn perthynas â Lloegr.

Rwy'n pwysleisio mai safbwynt Llywodraeth Cymru yw na ddylid cychwyn yr adrannau hyn o ran Cymru. Ond o ran y prawf a osodwyd i ni ein hunain ar gyfer cynnwys materion yn y

Bil, nid oes dadl gref mwyach bod y darpariaethau wedi eu disbyddu, eu bod yn annhebygol o gael eu cychwyn am nad yw'r cyd-destun gwreiddiol wedi newid, neu eu bod fel arall yn ddiangen.

O ystyried ein bwriad i gynnal rhaglen barhaus o Filiau diddymu, a natur yr ymgynghori sydd eisoes wedi digwydd ar y mater hwn, roeddem yn teimlo ei bod yn bwysig aros o fewn y ffiniau yr ydym wedi eu gosod i ni ein hunain. Mae'n werth pwysleisio mai dyma'r ffiniau sydd wedi llywodraethu'r amryw o filiau diddymu (a luniwyd gan Gomisiwn y Gyfraith) sydd wedi mynd drwy Senedd y DU yn y gorffennol.

Mae ychwanegu "yn Lloegr" yn un ffordd (a ddefnyddir mewn rhannau eraill o'r Bil, fel y dywedwch) i "ddiddymu" darpariaethau o ran Cymru; fe'i defnyddir pan fo angen gadael y darpariaethau dan sylw yn eu lle o ran Lloegr ac felly na ellir eu diddymu drwy eu hepgor o'r Ddeddf sy'n eu cynnwys, neu drwy ddiddymu'r Ddeddf gyfan. Mae'r rhesymau pam nad ydym wedi gwneud hynny yma wedi eu nodi uchod.

- **amlinelliad o oblygiadau posibl unrhyw benderfyniadau a wneir yn y dyfodol gan Lywodraeth y DU i gychwyn darpariaethau eraill y mae'r Bil yn cynnig eu diddymu.**

O ran diddymu darpariaethau nad ydynt wedi eu cychwyn drwy'r Bil, nid oes gan Lywodraeth y DU bwerau cyfatebol.

**Cwestiwn 10: A wnewch chi amlinellu a oes unrhyw oblygiadau i'r cyfeiriadau at yr Alban mewn darpariaethau yn Neddf Diwydiant 1979 a Deddf Diwydiant 1980 y cynigir eu diddymu?**

Nid oes unrhyw oblygiadau i'r cyfeiriadau at yr Alban yn y darpariaethau yn Neddf Diwydiant 1979 a Deddf Diwydiant 1980 y bwriedir eu diddymu. Mae unrhyw gyfeiriadau gweddilliol yn y darpariaethau hynny at Awdurdod Datblygu'r Alban neu Ddeddf Awdurdod Datblygu'r Alban 1975 wedi bod yn ddiangen ers peth amser, neu eisoes wedi eu diddymu i bob pwrpas yn rhinwedd Atodlen 5 i Ddeddf Menter a Threfi Newydd (yr Alban) 1990.

**Cwestiwn 11: A wnewch chi nodi a oes gan Lywodraeth Cymru gynlluniau ar gyfer rhaglen i ddiddymu cyfreithiau yn y dyfodol, ac os felly, pryd y disgwylir i Fil sy'n cynnwys darpariaethau o'r fath gael ei gyflwyno?**

Rydym eisoes wedi dweud bod tacluso'r llyfr statud drwy ddiddymu darpariaethau nad ydynt mwyach o unrhyw werth na budd ymarferol yn helpu i ddod ag eglurder o ran y gyfraith sy'n berthnasol i Gymru. Mae'n helpu i osgoi treulio amser yn ddiangen, a phobl yn cael eu camarwain gan hen ddeddfau. Dyna pam fod y Llywodraeth eisoes wedi nodi ei bod yn rhagweld y bydd rhaglenni hygyrchedd y gyfraith yn cynnwys Biliau o'r fath yn y dyfodol.

Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol sy'n rheoli'r broses, ac yn dilyn y Bil hwn, bydd yn casglu ac yn cynnau rhestrau o faterion eraill i'w cynnwys mewn Biliau tebyg yn y dyfodol. Mater i'r Llywodraeth nesaf fydd amseriad y Bil nesaf.

Soniais yn fy nhystiolaeth fod angen inni ystyried sut y caiff mathau penodol o Filiau eu hystyried, ac rwy'n awyddus i weld gweithdrefn yn cael ei datblygu ar gyfer Biliau diddymu. Mae amryw o enghreifftiau o'r Gymanwlad y gallem eu hystyried, ac rwy'n sicr yn credu bod modd sefydlu dull effeithiol o ymdrin â Biliau o'r fath.

**Cwestiwn 12: A wnewch chi nodi a ystyriwyd unrhyw ofyniad i addasu enw hir Deddf 2019 o ganlyniad i'r Bil?**

Nid ydym yn bwriadu addasu enw hir Deddf 2019 ar hyn o bryd.

**Cwestiwn 13: Pan fyddwch mewn sefyllfa i wneud hynny, a wnewch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau Llywodraeth Cymru â Llywodraeth y DU mewn perthynas â chydsyniadau Gweinidog y Goron sy'n angenrheidiol i sicrhau bod y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd?**

Ar adeg ysgrifennu hwn nid wyf mewn sefyllfa i roi diweddariad, ond fe wnaf hynny pan fydd rhagor o wybodaeth ar gael.

Yn gywir,

Julie James

**Julie James AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni
Counsel General and Minister for Delivery